

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and  
Education Committee**

**Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)|  
Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill**

**ALN 69**

**Ymateb gan: Cydlynwyr AAA - cynradd Ceredigion (canol + de)  
Response from: SENCOs - Ceredigion primary (mid + south)**

Cyfarfod Ymgynghoriad ar y Mesur ADY – Felinfach 6/2/17

**CAAAau ysgolion cynradd ysgolion canol/de Ceredigion –**

**10 Nod y Mesur**

- Cwestiynu parthed pryderon beth fydd yn digwydd fyny i 25ain oed. Eu bod yn medru cael mynediad i Addysg.
- 6 – Pryderon bod yr hawl i fynd at Dribiwnlys yn mynd i fod ar draws yr ystod. Cyfleoedd Tribiwnlys yn mynd i fod yn ehangach. Nid y disgyblion mwyaf anghenus sydd/bydd yn mynd i dribiwnlys.

**Diffiniad rôl yr ALNCo**

- Cwestiynu am eglurder y rôl. (Dim ond y disgyblion AAA sydd yn cael eu dal ).
- Gweithdai yn cael eu cynnal ym Mawrth – rôl yr ALNCo (Expert group)
- Cwestiynu statws disgyblion MA+T o dan y mesur? Dylai rhain cael eu cwmpasu gan yr ochr fugeiliol?

**Where a young person is not attending school – LA would be responsible to provide**

- Grey area mawr– mae angen eglurder MAWR ar hwn.
- Consyrn mawr bod cyllid yr ALI yn gallu cael ei dynnu allan o ysgolion i gyllido Addysg gartref?

**IDP's**

**Cyfrifoldeb yn trosglwyddo o'r Ysgol i'r ALI**

- Cydweithio agos rhwng yr awdurdod ag ysgolion fel ag y mae.

- Consyrn parthed rheini yn gallu pwsio bod y gyfrifoldeb dros IDP yn trosglwyddo i'r All
- Adolygu CDU – statudol gyda'r adolygiad unwaith y flwyddyn neu 'On request'
- Angen diffiniad o 'or on request' – hyn yn peri gofid mawr o ran llwyth gwiath i'r ALNCo

### 0-25 Pwynt 1

- Mae'r ffaith bod yn cynnwys Llywodraethwyr yn codi pryderon parthed rôl y Llywodraethwyr – diffyg arbenigedd yn y Corff Llywodraethwyr.
- Cwestiynu ar ba sail mae'r ysgol yn gwneud penderfyniad o ran adnabod ADY – angen meini prawf er mwyn bod yn gyfartal ar draws ysgolion ac ALL.
- Rôl DECLO yn allweddol yma. (Ar hyn o bryd mae staff meddygol yn awgrymu bod cymorth 1:1 yn addas er mai penderfyniad staff addysg dylai hyn fod – yn codi disgwyliadau rhieni mewn ffordd anffodus).
- Cyfrifoldeb yn dod i'r ALL o'r Llywodraeth ar gyfer ôl 16 – consyrn bod dim rôl ar gyfer arbenigwyr Careers Wales yn y cynlluniau yma.

### Datblygu'r gweithlu

- Datblygu sgiliau craidd yn dod i fewn i hyfforddiant ANG – mae angen mwy o gyfartaledd ar draws profiadau/hyfforddiant ANG. Ni does digon o ddealltwriaeth gan rai ar hyn o bryd.
- Ydyw hyn yn ymarferol? – mewn ysgolion bach gwledig ble mae'r athrawon yn dysgu ac yn bennaeth yn ogystal â gwneud y rôl SENCO – ni fydd amser ganddynt i wneud hyfforddiant ar lefel Masters?
- Pryderon ynglŷn â'r llwyth gwaith ar gyfer yr ALNCO mewn ysgolion mawr (3-19) lle mae'r nifer o ddisgyblion efo CAU nawr yn fawr.
- Y disgwyliad bod yr ALNCO yn aelod o'r uwch dim rheoli yn peri gofid. Byddai cymryd cyfrifoldebau ychwanegol i rôl yr ALNCO yn anodd o ran gwneud cyfiawnder â'r holl gyfrifoldebau. Tuedd o fod yn rôl arweinyddol ar draws yr ysgol yn ogystal ag arwain ar ADY.

### Unrhyw gwestiwn arall?

- Consyrn parthed y cyllid – cychwyn y cyllid ac yna yn ei dynnu ffwrdd , ond y disgwyliadau yn parhau.
- A fydd disgyblion gyda sgiliau sylfaenol llythrennedd/rhifedd yn cael eu adnabod gyda ADY neu beidio? – angen eglurdeb ar y meini prawf – byddai'r ateb i'r cwestiwn yma yn cael effaith enfawr ar llwyth gwaith yr ALNCo.
- Oes modd o osod disgyblion SGILIAU SYLFAENOL – o dan adain tim llythrennedd/rhifedd yr ysgolion yn hytrach nag ar y gofrestr AAA? – y disgyblion sydd angen ychydig o hwb dros dro yn unig.
- Trafodwyd y neges o adnabyddiaeth o angen y disgybl felly yn ADY. Angen CRITERIA pendant.